



MYNYDDOEDD CAMBRIA I'R ARFORDIR: DATBLYGU CYDWELEDIGAETH AR GYFER EIN TIR A MÔR

Adroddiad o'r tîm Nearly Wild ar gyfer
prosiect 'O'r Mynydd i'r Môr' a Menter
Mynyddoedd Cambria

Rhagfyr 2021



O'R MYNYDD I'R MÔR
SUMMIT TO SEA



CYNNWYS

1	RHAGARWEINIAD.....	3
1.1	Cefndir.....	3
1.1.1	Menter Mynyddoedd Cambria	3
1.1.2	O'r Mynydd i'r Môr	4
1.2	Pwrpas y gwaith.....	4
1.3	Ymagwedd at y gwaith.....	5
2	YCHYDIG AM Y BUSNESAU FE WNAETHON NI SIARAD Â NHW	6
3	YR HYN A GLYWSOM ODDI WRTH Y BUSNESAU HYN.....	9
3.1	Sut mae'r busnesau yn cyfoethogi natur	9
3.2	Y berthynas rhwng natur a'u gweithgareddau masnachol.....	12
3.3	Eu canfyddiadau am gyflwr natur yn lleol a'r bygythiadau i natur yn yr ardal.....	13
3.4	Y rhan mae'r busnesau yn chwarae yn y gymuned leol a'r economi	16
3.5	Eu dyheadau am y dyfodol.....	16
4	DADANSODDIAD	20
5	CYSYNIADAU PROSIECTAU ARFAETHEDIG	25
5.1	Egwyddorion cymorth.....	25
5.2	Cysyniadau prosiect	26
5.2.1	SYLWEBAETH.....	33
6	CASGLIAD	34

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn, yn enwedig y perchnogion busnes hynny sydd wedi rhoi o'u hamser i siarad â ni a rhoi eu hawgrymiadau a'u syniadau'n hael.

Cyllidwyd yr adroddiad hwn gan y canlynol:





1 RHAGARWEINIAD

1.1 Cefndir

Pwysleisiwyd yr angen i ddatblygu cydweledigaeth a chynllun gweithredu ar gyfer galluogi ffermwyr, rheolwyr tir a busnesau eraill 'ar sail natur' i gynyddu darparu nwyddau cyhoeddus trwy weithredu ar draws dirwedd Mynyddoedd Cambria gan adroddiad *Landscape status for the Cambrian Mountains*; mae'n amlwg o'r trafodaethau cyfredol ynghylch dyfodol defnydd y tir o fewn Mynyddoedd Cambria, yn enwedig yng nghydestun y newidiadau ôl-Frexit i ystrwythurau cynhaliaeth.

Yn yr un modd, ar gyfer O'r Mynydd i'r Môr, bwriadwyd y gwaith hwn i grisialu a gwireddu'r weledigaeth a'r themau yn ystod cyfnod datblygiad y fenter. Mae hwn yn neilltuol o wir am Thema 1: system natur gyfoethog a chynaliadwy – sydd wedi dynodi fod amryw agenda cynnyrch adnoddau naturiol yn cael eu gyrru gan bolisi economaidd, marchnadoedd a grantiau/ cymorthdaliadau nad ydynt yn caniatáu i'r arlliw lleol ynghyd ag anghenion gwahanol perchnogion, defnyddiwr a rheolwyr. Mae'r thema felly yn ceisio darganfod ffyrdd y gellir diwallu anghenion cenedlaethol ond gyda gallu ehangach ar gyfer gweinyddiaeth lleol ynghyd ag atebion sy'n llesol i natur oddi mewn i system gynhyrchiol. Fodd bynnag, mae'r cysylltiadau hefyd yn gryf gyda'r thema sy'n datblygu: Cysylltiadau rhwng cynefinoedd cyfoethog mewn bywyd gwyllt ar gyfer yr elw gymunedol fwyaf; yn ail gysylltu pobl; ac yn ail gysylltu'r economi.

Yn ehangach, rydym mewn cyfnod o newid mewn rheolaeth adnoddau naturiol, gan gynnwys ffermio. Mae ymadawiad y DU oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd yn arwain at y newid mwyaf ym mholsi amaeth-amgylcheddol mewn degawdau. Mae cyfeiriad y dyfodol yn aneglur ar hyn o bryd, ond daw'r gyfundrefn newydd i rym yn 2024 neu 2025. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu'r fframwaith polisi cyfreithiol ar gyfer rheolaeth gyfoeth naturiol yng Nghymru, yn cyflwyno'r cysyniad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng Nghymru "fel ymagwedd newydd sy'n sicrhau bod y modd y mae defnydd ac effeithiau ar ein hadnoddau naturiol ddim yn arwain at eu diriwyriad yn yr hir dymor".

Os edrychwn yn fwy eang eto, mae yna fater o'r pwys mwyaf yn ein gwynebu ynghylch newid hinsawdd a charbon. Mae'r tri Awdurodd Lleol yn syrthio oddi mewn i ardal O'r Mynydd i'r Môr a Menter Mynyddoedd Cambria oll wedi datgan Argyfyngau Hinsawdd. Beth a all O'r Mynydd i'r Môr a Menter Mynyddoedd Cambria wneud mewn termau ymarferol i gyfrannu at ymdrechion lleol a rhanbarthol i leddfu ac ymdopi gyda newid hinsawdd, gan weithio tuag at lefel carbon sero net?

1.1.1 Menter Mynyddoedd Cambria

Pwrpas Menter Mynyddoedd Cambria yw i ymgymeryd â gweithgareddau sy'n llesol i'r gymuned yn ardal Mynyddoedd Cambria ac yn arbennig i:

- Weithio gyda chymunedau, cynhyrchwyr lleol, darparwyr twristiaeth ac eraill i gefnogi datblygu cymunedau cynaliadwy a hydwyth cefn gwlad.
- Cynnal yr amgylchedd naturiol, yr amgylchedd adeiladol ynghyd â threftadaeth yr ardal.
- Hyrwyddo darpariaeth y gwasanaethau ecosystem er budd y gymuned ehangach trwy sicrhau carbon yn y pridd, gwell ansawdd a storfa ddŵr, rheoli llifogydd ynghyd â darparu cyfleon i fwynhau cefn gwlad.
- Hyrwyddo safonau uchaf rheolaeth dir o fewn ardal Mynyddoedd Cambria
- Gweithio gyda phartneriaid er mwyn sefydlu'r ardal fel cyrchfan twristiaid o fewn y twristiaeth ehangach a gynigir yng Nghanolbarth Cymru.



- Datblygu gwell ddealltwriaeth o Fynyddoedd Cambria ymhlith ymwelwyr, pobl lleol a grwpiau eraill sydd â diddordeb ac sy'n defnyddio, trwy ddehongliad, addysg a chysylltiad â'r cyhoedd a chyfleusterau gwell.

1.1.2 O'r Mynydd i'r Môr

Prosiect cydgreadigol yw O'r Mynydd i'r Môr sy'n datblygu arferion rheolaeth dir cydweithredol sy'n seiliedig ar leoedd ac sy'n cefnogi ecosystemau iach ac amrywiol ar draws ffiniau eiddo, gan ddarparu lles economaidd, ecolegol a chymdeithasol sy'n addas i'r gymdogaeth.

Bwriad cyffredinol O'r Mynydd i'r Môr yw i **gyd-gynllunio** gyda rhanddeiliad lleol, tîrfeddianwyr a defnyddwyr y môr, ardal sy'n gyfoethog mewn natur o fasiff Pumlumon, i lawr trwy ddyfrynnoedd coediog ar hyd systemau afonydd ac allan i Fae Ceredigion. Wrth weithio o'r llawr i fyny trwy broses cyd-gynllunio mae'r prosiect yn archwilio beth sy'n gweithio i'r cymunedau, busnesau, a natur, a sut gellir ei weithredu.

Mae O'r Mynydd i'r Môr yn sylweddoli na ellir ddod o hyd i atebion i'n heriau amgylcheddol trwy eithrio trigolion, amddiffyn ond pocedi ynysig a bach o fywyd gwylt, neu ddiystyru y cyfoeth o wybodaeth, dealltwriaeth a phryderon am y tir sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal.

Yr unig ffordd foesol a chyfiawn i wiroi dirywiad amgylcheddol yw i ddod o hyd i ffyrdd i weithio gyda phobl. Rhaid i ni fod yn uchelgeisiol ac mae'n holl bwysig i weithio ar lefel tirwedd. Rhaid i atebion cydweddu, gan gynnal yr economi leol, dathlu y diwylliant lleol ynghyd ag ymwybyddiaeth o leoliad.

1.2 Pwrpas y gwaith

Mae prosiect Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn dymuno cefnogi economi lleol cryfach, cymunedau, a natur. Gyda hyn yn gyffredin, ynghyd â'u gorgyffyrddiad mewn ardaloedd daearyddol, penderfynon nhw gydweithio ar y darn yma o waith.

Fel rhan o'u gwaith i gynllunio ar gyfer gweithgaredd y dyfodol, roedd Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr eisiau datblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ein tir a môr a rhennir gan ffermwyr a rheolwyr cyfoeth naturiol eraill. Gall natur weithiau fynd ar goll wrth ystyried adfywio cymunedau ac economaidd, ac roedd O'r Mynydd i'r Môr a Menter Mynyddoedd Cambria ill dau eisiau rhoi hwn wrth galon yr adroddiad hwn, tra'n cadw mewn cof y ddwy elfen arall.

Beth sy'n rhyngweithio rhwng busnes a natur ar hyn o bryd? Beth yw dyheadau busnesau ar gyfer y dyfodol? A fydd natur yn elw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol os fyddant yn cael eu gweithredu? Os felly, sut all y mentrau cefnogi datblygu busnes a fydd yn elwa'n gadarnhaol ar natur, cymuned a hefyd yr economi?

Ar gyfer yn ddau fenter, mae'n hanfodol bod y rhanddeiliad lleol yn cael eu cynnwys yn y broses cynllunio.

Roedd Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr eisiau gwell ddealltwriaeth o sut y mae busnesau yn eu hardaloedd yn gweithio gydag ac yn cyfoethogi natur, p'un a'i maent yn fusnesau lle mae pobl yn ennill eu bywoliaeth yn uniongyrchol gydag adnoddau naturiol megis ffermio, pysgota neu goedwigaeth, neu busnesau sydd â pherthynas anuniongyrchol gyda natur, megis twristiaeth neu weithgareddau awyr agored, ond lle mae'r berthynas yn dal i fod yn greiddiol i'w model busnes.

Mae Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr ill dau eisiau cefnogi busnesau i wneud mwy i gyfoethogi natur yn eu hardaloedd. Ond, os ydynt yn mynd i chwilio am yr arian a all cael ei



buddsoddi yn hwn, rhaid wrth ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, yr hyn y mae'r busnesau hyn yn awyddus i wneud yn y dyfodol er mwyn gwneud mwy dros natur a bioamrwyaeth, a'r gefnogaeth y byddai'r busnesau hyn yn ystyried yn fuddiol.

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn:

- Darparu gwybodaeth er mwyn creu darlun o fusnesau yn ardaloedd Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr sy'n gweithio gydag adnoddau naturiol yr ardal.
- Darparu gwybodaeth am beth yw barn y bobl sy'n rhedeg y busnesau am eu perthynas rhwng eu busnes a natur, beth yw eu dyheadau ar gyfer y dyfodol a pha gefnogaeth fyddai'n fwy defnyddiol, beth yw eu canfyddiadau am gyflwr y natur leol, a'r berthynas rhwng eu busnesau nhw a'r gymuned leol.
- Gwneud cynigion i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr ar gyfer prosiect datblygu arfaethedig.

1.3 Ymagwedd at y gwaith

Yn dilyn proses agor dentrau, fe apwyntiodd Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr Nearly Wild i wneud y gwaith, gan ddechrau ar ddechrau mis Mehefin 2021 gan adrodd yn ôl ym mis Medi 2021.

Roedd tîm Nearly Wild yn cynnwys nifer o bobl lleol sydd â gwybodaeth gadarn o'r economi ar sail natur lleol: Rupert Allen; Anne-Marie Carty; Ifan Davies; Huw Denman; Dafydd Morris-Jones; Jane Powell.

Roedd y gwaith yn cynnwys:

- Cyfarfod cychwynnol, ymgylfarwyddo a pharatoi.
- Cydlynu rhestr o fusnesau ar sail natur yn ardal Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr gan ddefnyddio cysylltiadau a ddarparwyd gan dimau Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr, ac ein gwybodaeth a'n rhwydweithiau'n hyn, yn arwain at restr sylfaenol o 100 o fusnesau.
- Trafodaethau wyneb yn wyneb gyda 55 o fusnesau, ar y ffôn, Zoom ac wyneb yn wyneb.
- Cyfarfod gyda ffermwyr, gyda dros 25 yn mynychu.
- Cyfarfod ar lein gyda busnesau ymwelwyr a thwristiaeth, gyda 4 yn mynychu.
- Gweithdy tîm dadansoddi mewnol a thrafodaethau ychwanegol.
- Adrodd yn ôl.



2 YCHYDIG AM Y BUSNESAU FE WNAETHON NI SIARAD Â NHW

Daw'r wybodaeth yn y darn hwn o'n sgysiau wyneb yn wyneb â 55 o fusnesau.

Lleoliad

Gwynedd	4
Sir Gaerfyrddin	6
Powys	10
Ceredigion	35

Y bwriad oedd i samplu ar draws yr ardal ddaearyddol o dan orchudd y ddwy fenter, yn enwedig yn yr ardal 'man croesi'. Fe wnaethon gymryd agwedd 'ffin niwlog' yn fwriadol, gan gynnwys busnesau sydd wedi'u lleoli efallai tu allan i'r ardal ond a oedd yn gweithio rhyw sut o'i fewn, e.e. gwerthu cynnrych, ac yn awyddus i gymryd rhan.

Math o fusnes


Rydym wedi clustnodi'r busnesau sydd wedi ymateg i gategorïau:

Ffermio	23
Rheolaeth goedwigaeth a choetir	7
Morol	5
Garddwriaeth	6
Ymwelwyr a thwristiaeth (gan gynnwys gweithgareddau awyr agored)	13
Arall	8

Nodwch fod y cyfanswm yn fwy na 55, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod rhai o'r ymatebwyr yn siarad am fwy nag un fenter fusnes.

Mae eraill yn cynnwys: plygu gwrychoedd; arwerthwr; hyfforddi ceffylau; tyfu helyg a chynnal cyrsiau; addysg heb fod yn ysgol; therapi awyr agored; mêl; ffotograffiaeth.

Sail cyfoeth naturiol



Mae'r busnesau a wnaeth ymateb bron i gyd yn gweithio efo'r tir, a 5 yn seiliedig ar adnoddau'r môr.

Rheolaeth busnes dros yr adnoddau maent yn defnyddio

Roeddwn eisiau deall pa sail oedd gan y busnesau mynediad at yr adnoddau naturiol oedd yn sylfaen i'w busnesau.



- Mae 31 o fusnesau yn berchen y tir sy'n sylfaen i'w busnes. Allan o'r rhain, mae tri hefyd yn prynu adnoddau; mae gan bedwar tiroedd ychwanegol maent yn denantiaid arnynt; ac mae dau hefyd yn cynaeafu o dir rhywun arall.
- Mae gan saith busnes trefniant tentantiaeth.
- Mae gan bedwar busnes trefniant rheolaeth.
- Mae tri o fusnesau yn ymweld â'r tir ond nid oes trefniant arall.
- Mae un busnes yn prynu'r adnoddau mae ei hangen.

SYLW

Mae hyn yn awgrymu fod y rhan fwyaf o fusnesau a wnaeth ymateb â rheolaeth dros yr adnoddau naturiol sydd wrth wraidd eu busnes. Fodd bynnag, fe wnaeth y ffermwyr ddisgrifio sut mae eu penderfyniadau yn cael eu llywio – ac i ryw raddau hefyd yn cael eu rheoli – gan bolisi amaeth-amgylcheddol a'r cynlluniau maent yn ymrwymedig â nhw, ynghyd â'u profiadau a'u cyfleoedd masnachol, a'u hathroniaethau a'u dyheadau eu hunain.

Marchnadoedd

Fe wnaethon ofyn i fusnesau i ddweud wrthym am leolaid eu marchnadoedd uniongyrchol, gan ddefnyddio'r categoreiddiad 'lleol', 'ymhellach yng Nghymru', 'DU arall' a 'thramor'.

Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gwerthu ar draws amryw o leoliadau marchnad, er dim ond 12 sy'n gwerthu i farchnad dramor. Mae 10 busnes ond yn gwerthu i'r farchnad leol.

I 12 o fusnesau, y marchnadoedd lleol yw'r pwysica, yn cynrychioli rhwng 75 a 100% o'u gwerthiant.

I'r gwrthwyneb, mae'r un nifer o fusnesau (13) lle mae marchnadoedd lleol yn llai pwysig, lle maent yn cynrychioli 25% neu lai o'u gwerthiant.

I 8 o fusnesau, y farchnad DU ehangach yw eu safle gwerthu pwysica. Dim ond 1 busnes (busnes pysgota môr am gimwch, cranc a chorgimwch) a nododd mai'r farchnad dramor oedd yn cymryd mwyafrif arwyddocaol o'u gwerthiant.

Gan edrych ar y darlun yn ei gyfanrwydd, mae'r farchnad Gymreig (gan gyfuno 'lleol' ac 'ymhellach yng Nghymru') yn cynrychioli bron i ddau draean o'r holl werthiant (63%); o hyn, mae'r farchnad leol yn cynrychioli dros draean (35%). Mae 26% rhagor o werthiannau yn mynd i'r farchnad DU ehangach, a 10% o werthiannau i farchnadoedd tramor.

SYLW

Mae'r data hwn yn dangos fod cryn amrywiaeth yn y marchnadoedd, sydd ddim yn peri syndod o ystyried y gwahanol mathau o fusnesau sydd o fewn y sampl. Fodd bynnag, mae gwerthiannau o fewn Cymru yn bwysig. Rydym yn ymwybodol mewn nifer o achosion, fod y marchnadoedd a soniodd y busnesau amdanynt ond un cam mewn cadwyn gyflenwi hirach, e.e. gwerthiannau da byw yn y mart, gyda gwerthiannau pellach i'r marchnadoedd Ewropeaidd. Mae sylwadau o'r cyfweiliadau yn dangos fod marchnata yn faes lle nad yw perchnogion busnes yn aml yn teimlo'n hyderus a hoffent allu cael cefnogaeth marchnata a fyddai'n addas ar gyfer maint eu busnes a'u dull, ac sy'n berthnasol i'w busnes.



Pwy sy'n gweithio yn y busnes

Mae 24 o'r busnesau fe wnaethon ni siarad â nhw yn unig fasnachwyr.

Mae gan 28 o'r busnesau un neu fwy o aelodau'r teulu yn gweithio yn y busnes.

Mae gan 26 o fusnesau pobl eraill yn gweithio yn y busnes nad ydynt yn aelodau o'r teulu.

Mae statws cyflogaeth y bobl arall sy'n ymneud â'r busnesau wedi ei rannu i raddau yn gyfartal rhwng gweithwyr (17 o fusnesau), contractwyr (14) ac eraill (15). Disgrifiwyd 'arall' yn amrywiol gan gynnwys llafur ysbeidiol, cyfarwyddwyr cwmni, is-gontractwyr, partneriaid busnes a hunangyflogedig.

Roedd gan 33 o'r busnesau o leiaf un gweithwr llawn amser. Roedd gan ddau o'r busnesau mwy na 10 gweithiwr llawn amser.

Ar draws y busnesau, roedd 90 o swyddi llawn amser a 60 rhan amser; roedd cyfanswm o 150 mewn cyflogaeth uniongyrchol.

SYLW

Mae bron yr holl fusnesau oddi mewn i gategori a elwir yn gyffredinol fel 'microfentrau' yn y DU, hynny yw maent yn cyflogi llai na 10 o bobl. Nodir bod ychydig dros hanner y busnesau yn cyflogi aelod o'r teulu, sy'n awgrymu fod y busnesau yn gyfranwyr arwyddocaol i incwm uniongyrchol neu ehangach y tŷ. Er yn fach, ni ddylid anwybyddu swyddogaeth y busnesau hyn i ddarparu gwaith i eraill. Rydym i gyd yn ymwybyddol o sefyllfa wledig – weithiau gwledig iawn – y busnesau hyn, ac rydym yn syweddoli fod y busnesau hyn yn darparu cyfraniadau gwerthfawr i gyflogaeth leol ac yn cynnal bywoliaethau lleol.



3 YR HYN A GLYWSOM ODDI WRTH Y BUSNESAU HYN

Mae'r darn hwn yn crynhoi yr hyn a ddywedodd y busnesau wrthym; nid oes dadansoddiad yn y darn hwn.

3.1 Sut mae'r busnesau yn cyfoethogi natur

Mae amrywiaeth eang yn y ffyrdd mae busnesau yn disgrifio sut maent yn cyfoethogi natur.

Thema	Gweithred
Ymroi i gynyddu bioamrywiaeth	<p>Pwll newydd; amffibiaid yn denu nadredd y glaswellt. Tyfu aeron er mwyn denu adar du a bronfreithod mawrion. Mae tyfu llawer o flodau yn denu peillwyr a glöynnod byw, gwybed hofran yn fwyd i'r pryfed gleision. Glaswelltiroedd bioamrywiaeth – dim plaeiddiaid na chwyrthaith, bridiau traddodiadol o ddefaid, gwartheg i gadw'r gwair i lawr.</p> <p>Pori cymysg ar gyfer bioamrywiaeth y glastiroedd; mae biswail yn fwyd i bryfed, ac felly i'r ystlymod.</p> <p>Mae pori gwartheg a defaid yn cynnal glastir amrywiol. Mae tyfu blodau yn darparu ffynhonnell neithdar. Mynd i'r afael â <i>Molinia</i> wrth bori.</p> <p>Gwndwn llysieuol ar gyfer porfeydd bioamrywiol. Blodau ar gyfer y peillwyr, yn gynnar yn y gwanwyn. Rheolaeth goetiroedd er mwyn amrywio nifer y rhywogaethau a gwneud yr adeiledd yn fwy amrywiol. Gwenyn yn peillio'r blodau a'r cnydau. Pwll bywyd gwyllt. Rheolaeth ar gyfer llygod y dŵr. Bwydo'r barcutiaid coch.</p>
Cynnal, cadw a chreu cynefinoedd	<p>Pwll. Dolydd blodau gwyllt. Coridorau bywyd gwyllt ar lannau nentydd. Ffensio nentydd. Ffermio defaid yn draddodiadol er mwyn cynnal a chadw cynefinoedd yr uwchdiroedd e.e. cadw'r grug yn fyr ar gyfer adar sy'n cenhedlu. Plannu coed. Cadw da byw allan o'r coetiroedd trwy ffensio. Dwbl ffensio'r gwrychoedd. Cynnal a chadw y porfeydd rhos, dim draeniad. Cadw'r defaid oddi ar y bryniau am 6 mis yn ystod y gaeaf er mwyn adfywio'r grug a'r gorgorsydd. Cwtogi nifer y praidd i adael mwy o dyfiant ar y bryniau. Tyfu barlys ar yr iseldir ar gyfer creu cynefinoedd i'r adar. Cylchdroi coedlannau. Meithrin blodau ar gyfer pryfed sy'n peillio. Adferiad cynefinoedd y coetiroedd – cael gwared â chonwydd, codi muriau cerrig, plannu coed, pori. Cynnal a chadw gwrychoedd a choetiroedd hynafol. Gwahardd defaid o'r coetiroedd a'r rhan fwyaf o'r cyrsiau dŵr.</p>



Thema	Gweithred
	Torri'r goedwig gonwydd a'i ddisodli â phren caled brodorol a chreu llyn. Adfer y mawnogydd. Creu coridorau bywyd gwyllt trwy blannu dolennau o wrychoedd.
Cynnal cadw a chynyddu safleoedd nythu a chlwydo	Blychau adar Blychau tylluanod Blychau pathewod Blychau ystumod Gadael agoriadau ar gyfer tyllunanod gwynion pan adnewyddir adeiladau Mannau ar gyfer gwenoliaid, ystumod ayyb yn bondoeau'r adeiladau Torri'r eithin ond gadael lle i'r anifeiliaid i nythu Cadw clwydi mamolaeth ar gyfer yr ystumod
Lleihau mewnbynnau	Dim gwrtaith Dim plaladdwyr Adeiladu'r pridd Gweithio'n organig Ychydig iawn o fwyd anifeiliaid wedi'i brynu mewn Ychydig iawn o ddefnyddio gwrtaith Defnydd mwy effeithiol o ddŵr trwy bibellu i'r cafnau
Carbon	Adeiladu carbon pridd trwy'r drefn bori Plannu gwrychoedd a choed ar gyfer atafaeliad carbon Rheolaeth fawnogydd – atafaelu migwyn carbon
Ansawdd y dŵr	Gwella adeiledd y pridd er mwyn dal dŵr Gwahardd da byw o'r cyrsiau dŵr
Codi ymwybyddiaeth	Tynnu sylw pobl at fywyd gwyllt. Esbonio'r tirwedd. Sgyrsiau anffurfiol er mwyn cynyddu dealltwriaeth o faterion amgylcheddol. Hyrwyddo 'henuriaid'. Gweithgaredd sy'n cysylltu pobl â natur. Cynnwys pobl lleol fel gwirfoddolwyr ar y tir, felly'n gweithio'n agos gyda natur ac yn rhannu gwerthoedd sy'n ymwneud â byw'n syml ac yn gwerthfawrogi natur. Gweithgareddau sy'n cael pobl allan i gefn gwlad a'i fwynhau. Cyfeirio pobl at warchodfeydd RSPB, gan roi teithiau cerdded hunandywysiedig. Annog hygyrchedd cyhoeddus a chyfraniad y cyhoedd. Addysgu plant y ddinas sut i ddysgu am ac i barchu natur. Addysg, gan gynnwys adar brodorol, anifeiliaid a chwilod.
Lleihau effaith	Gweithio yn y coedwigoedd ac eithrio yn ystod y tymor nythu. Lleihau'r defnydd o gerbydau. Cyrchu a defnyddio offer cynaliadwy, e.e. wedi'i wneud wrth ddefnyddio deunydd wedi'i ailgylchu. Cael gwared â gwastraff (o'r môr). Dim gweithio pellach yn y coedwigoedd yn ystod tymor nythu.



Thema	Gweithred
	<p>Cerdded at bob gwaith yn y mawnogydd. Lleihau'r defnydd o blastig. Lleihau gwastraff. Edrych ar solar i leihau ôl troed carbon.</p>
Lleihau milltiroedd/teithio	<p>Defnyddio cynnyrch lleol. Cadw gwenyn. Ceisio cynyddu cynhyrchiad lleol er mwyn lleihau'r cynnyrch a brynir ymhellach i ffwrdd. Darparu marchnad yn agos at fan cynhyrchu.</p>
Ymarferion gwaith	<p>Lleihau y nifer o ddefaid. Cyfundrefn pori naturiol: cylchdro pori da byw; mor bell ac sy'n bosibl gyr naturiol – oedran cymysg, ymddygiad naturiol. Organig – dim gwrtaith artiffisial, amrywiaeth eang o gnydau, rheolaeth stoc ofalus er mwyn atal llifeiriant, dim gwrthfotigau. Ffermio atgynhyrchiol – dim gwrtaith synthetig neu plaladdwyr, pori'n ddethol. Darparu marchnad ar gyfer bridiau brodorol sy'n fwy addas i bori ar fryndiroedd diwelliant ac sydd angen llai o fewnbynau. Cynnal a chadw tir pori sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau. Tyfu <i>brassica juncea</i> er mwyn gwaredu'r pridd o blwm. Dros amser, newid y coetiroedd o goedwigoedd conwydd i goetiroedd mwy amrywiol wrth ddefnyddio cymysgedd o orchudd parhaus, paramaethu a choedwigaeth fferm. Polisiau ac ymarferion amgylcheddol, e.e. cynnyrch ecolanhau, paneli solar. Pellach, dim ond pori ar gorsydd yr iseldiroedd yn ystod diwedd yr haf unwaith i'r porfa a'r blodau hadu. Pori cadwraethol. Egwyddorion ecolegol-amaeth. Cylchdroi cnydau gan gynnwys ffa a bysedd y blaidd ar gyfer y peillwyr, gyda defaid a gwartheg i rheoli'n naturiol baich y mwydod. Defnydd o gwndwn amlrywogaeth.</p>

SYLW

Awgryma hyn fod y mwyafarif o'r busnesau a ymatebodd yn gyfrifol dros yr adnoddau naturiol sydd wrth wraidd eu busnes. Fodd bynnag, disgrifiodd ffermwyr sut y gyrrir, ac y rheolir eu penderfyniadau gan bolisi amaeth-amgylcheddol ynghyd â'r cynlluniau y maent yn rhan ohonynt, yn ogystal â'u profiad o gyfleon marchnata, eu hathroniaethau a'u dyheadau eu hunain.



3.2 Y berthynas rhwng natur a'u gweithgareddau masnachol

Fe ofynnon ni i fusnesau sut mae eu hagwedd at les natur yn effeithio agweddau masnachol eu busnesau. Roeddwn eisiau darganfod os ydy 'elfen natur' yn rhan annatod o'u model busnes neu beidio, os ydyw yn ychwanegu gwerth i gynnyrch a gwasanaethau y busnes, os ydyw'n effeithio ar eu costau a'u prisiau.

I nifer, mae gweithio er lles natur yn gwbl ganolog i'w busnesau. Er enghraifft

"Cefnogi perthynas parchus rhwng pobl a natur yw nod y busnes". (Busnes ymwelwyr a thwristiaeth)

"Mae'r agwedd hon yn bwysig iawn i ni yn bersonol". (Busnes marchogaeth)

"Mae natur yn gwbl annatod i bopeth. Sef bod yn fusnes masnachol sy'n gallu parhau i wneud y gwaith tra hefyd yn llesol i natur. (Busnes fferm)

"Fe ddylen ni integrediddio ein hunain gyda'r amgylchedd ... mae ymwneud yn ymarferol efo'r amgylchedd yn ei gwneud yn gynaliadwy. Mae natur yn rhan o sut rydym yn ennill bywoliaeth o'r tir". (Busnes blodau)

Mae gosod natur yng nghanol eu busnes yn cael dylanwad mewn gwahanol ffyrdd gan ddibynnu ar natur y busnes. I rai, mae'n gymhwysiad ymarferol i'w hathroniaeth a'u credoau. I eraill, mae eu busnes yn weithgarwch sy'n dod, yn uniongyrchol ac yn fwriadol, â lles i rai agweddau o natur, e.e. gosod cloddiau neu reoli coetiroedd sy'n gwella bioamrywiaeth a chreu cynefinoedd, gwenyn fel peillwyr, cysylltu pobl a natur yn uniongyrchol gyda'r bwriad o addysgu pobl i ymddwyn yn fwy positif tuag at natur, rheoli glaswelltiroedd mewn ffordd sy'n atafaelu carbon. I eraill, mae'n dylanwadu sut maent yn gweithredu eu busnes, e.e. penderfyniadau am ddulliau rheoli'r tir.

I ffermydd sy'n gymwys ac sydd wedi ymroi i gytundeb, mae'n amlwg fod y cynlluniau amaeth-amgylchedd a'u taliadau yn gymhelliad cryf i ffermio. Fe glywsom am esiamplau lle roedd gweithgareddau cynllun amaeth-amgylchedd wedi arwain at newidiadau cadarnhaol ar gyfer natur.

"Cynlluniau Glastir: cloddiau, ffriddoedd, crifolennau – lloches ar gyfer anifeiliaid".

"Nid oeddwn yn arfer gweld yr un wennol ddu, nawr mae gennym nifer ohonynt yn byw yma. Roedd yr arolwg ystlumod diwethaf wedi canfod pum math o ystlumod yn byw ar ein tir. Mwy o flodau gwyllt megis clychlys eiddewddail. Mae'r gwahaniaeth yn bennaf oherwydd y gwelliannau rydym wedi gwneud ochr yn ochr â mudiadau megis Coed Cadw a chynlluniau megis Glastir".

"Coridorau bywyd gwyllt wrth ochr y nant, coetir, blychau pathewod, blychau ystlumod – Tir Gofal".

Fe glywon ni hefyd esiamplau lle roedd ffermwyr eisiau gwneud gwahaniaeth ar eu tir, a gwneud effaith mwy a gwell ar gyfer natur, ond bod rhaid iddynt barhau i weithredu o fewn gofynion y cynllun.

"Mae taliadau'r amaeth-amgylchedd sy'n gysylltiedig ag arferion cadwraeth yn rhan annatod o fuddioldeb y daliad, felly'n elwa'r busnes ond hefyd yn cyfyngu ar eu gallu i arloesi, naill a'i yn fasnachol neu yn nhermau methodoleg gadwraeth".

"Fe hoffwn wneud mwy er lles natur ond yn teimlo ein bod wedi ein llyffetheirio yn ein gallu i ymateb yn hyblyg".



“Nawr gan fod Glastir wedi lleihau cyfraddau stoc ymhellach mae wedi amharu ar y cydbwysedd, ac mae’r gylfinirod wedi diflannu”.

“Mae’r busnes wedi newid, ond yn gaeth i gytundeb sydd wedi dyddio”.

“Nid yw Glastir yn system hyblyg, rhaid meddu ar yr allu i ymateb i bwysau”.

Disgrifiwyd gwerth masnachol natur i fusnes mewn amryw o ffyrdd, dros ac uwchben pwysigrwydd eu hathroniaeth cynhenid. Roedd hwn yn cynnwys:

- Ffordd i ddenu cwsmeriaid, pwynt gwerthu, yn darparu ‘min’ marchnata.
- Yn caniatáu i fusnesau cwrdd ag anghenion cwsmeriaid am ethos amgylcheddol, e.e. rheolaeth dir gyfrifol, bwyd lleol, organig.
- Gwella gwerth ariannol y cynyddau/cynnyrch.
- Incwm o daliadau amaeth-amgylchedd.
- Darparu amgylchedd gweledol/tirwedd atyniadol a diddorol sy’n apelio at ymwelwyr.
- Lleihau’r llafur ac anghenion adnoddau eraill yn yr hir dymor, e.e. dolydd blodau gwyllt yn disodli torri gwair rheolaidd ar safleoedd gwestai a glampio.

Fodd bynnag, roedd hefyd agweddau negyddol o gymryd dull er lles natur i fusnes, gan gynnwys:

- Costau uwch ar gyfer prynu mewnbynnau a deunydd e.e. compost sy’n rhydd o fawn, porthiant organig.
- Mwy o amser nes bod gweithgaredd yn fuddiol, hyd fod y buddsoddiadau cychwynol uwch yn cael eu talu.
- Gwir gost llafur, lle nad yw gwaith llafurddwys yn cael ei gydnabod yng nghost gwerthiant a all gael ei ennill, neu lle nad yw sgiliau ac arbenigedd yn cael eu gwobrwyo trwy broses caffael tendro sy’n blaenoriaethu’r pris.
- Colli’r min cystadleuol yn y farchnad wrth gystadlu â busnesau eraill sy’n cymryd agwedd llai ‘ecogyfeillgar’, e.e. yn barod i weithio yn y coetiroedd yn ystod y tymor nythu.
- Yn fwy anodd i weithredu rhai agweddau eraill o’r busnes.

3.3 Eu canfyddiadau am gyflwr natur yn lleol a’r bygythiadau i natur yn yr ardal

Fe glywon am y gwelliannau a’r dirywiad; yn gyffredinol, a hefyd am wahanol rywogaethau.

Sylw ar welliannau	Sylw ar ddirywiad
Mwy o adar a glöynnod byw	Llai o weithgarwch adar
Mwy o ddolffiniaid dros y flwyddyn ddiwethaf	Llai o gorbenwaig a silod mân yn dod i’r traeth
Mwy o flodau gwyllt e.e. clychllys eiddewddail	Llai o ddraenogod
Mae gwenoliaid duon bellach yn byw ar y safle	Llai o wenoliaid y bondo
Mwy o flodau gwyllt	Llai o adar sy’n cenhedlu
Mwy o gwningod a chadnoid	Ble aeth yr holl draenogod? Fe welais 1 eleni,
Mwy o ysgyfarnogod	heblaw hynny does un wedi ei weld ers 10
Mwy o famaliaid bach	mlynedd.
Llawer o bodaod	Llai o adar sy’n nythu ar y llawr
Ansawdd y pridd wedi gwella	Mwy o <i>Molinia</i> .
Mwy o bryfed	Mwy o <i>Molinia</i> a brwyn.
Mwy o adar – cudyll coch, hebog yr ehedydd,	Llai o flodau ac amrywiaeth yn y dolydd.
cudyll bach, tylluanod, barcutiaid coch	Credir nad yw’r dwrgwn ar y safle bellach yn
Mwy o gylfinirod	cenhedlu.
Mwy o ysgyfarnogod	Mae’r croesbigau wedi mynd.
	Collwyd y corhedydd.



Sylw ar welliannau	Sylw ar ddirywiad
<p>Cynydd mewn crancod brown, copyn-grancod, corgimychiaid, cimychiaid o tua 10 gwaith dros y 10 mlynedd diwethaf</p> <p>Adfywiad y grug ar y bryniau</p> <p>Mae dolydd amlrywogaeth wedi disodli rhygwellt lluosflwydd.</p> <p>Coetiroedd newydd.</p> <p>Cynnydd yn niferoedd y daearfoch, o 1 set ym 1990 i 20 nawr ar y daliad.</p> <p>Mwy o rywogaeth o goed yn y coetiroedd.</p> <p>Mwy o lystyfiant coetir ar y llawr.</p> <p>Mwy o löynnod byw.</p> <p>Mwy o adar coetir.</p> <p>Mwy o frithyll.</p> <p>Mwy o ysgyfarnogod.</p> <p>Mwy o berthi wedi'u plannu.</p> <p>Mae'r cyrsiau dŵr yn llai llygredig.</p> <p>Mwy o bryfed ac infertebratau.</p> <p>Belaod coed a llygod y gwair.</p> <p>Mwy o fywyd gwyllt.</p> <p>Nifer sylweddol o farcutiaid coch.</p> <p>Mwy o crehyrcod bach copog.</p> <p>Mwy o ddraenogiaid y môr.</p>	<p>Llai o wenoliaid.</p>

SYLW

Mae'n amlwg ar unwaith nad oes consensws. Mae'r rhestr hon yn dangos fod canfyddiadau gwahanol iawn wedi'u selio ar brofiadau gwahanol, yn ddiamau'n adlewyrchu'r gwahanol sefyllfa mewn gwahanol fannau. Hefyd, mae'n debygol fod rhai o'r ymatebwyr a mwy o ddiddordeb nag eraill, ac mae pob person yn ymagweddu at natur o wahanol safbwynt, ac mae arlliw hwn ar yr ymatebion.

Nid oedd rheswm y newid bob amser yn wybyddus nac yn adnabyddus.

Priodolwyd peth o'r 'newyddion positif' i arferion rheolaeth neu fesurau cadwraeth priodol a roddwyd mewn lle gan y tirfeiddianwr/rheolwr gan gynnwys: ychwanegu cynefin; cyflwyno tomenni malurion; gosod cloddiau, brigdocio; ac ymatal rhag defnyddio cemegau; newid mewn defnydd o arferion adfywio; defnyddio bridau brodorol; lleihau niferoedd defaid; plannu rhagor o goed pren caled; lleihad mewn poriant ceffylau; gwell drefniadau torri gwair;

Roedd rhesymau eraill yn berthnasol i bolisi a deddfwriaeth y llywodraeth, yn gysylltiedig â chnydio/cyneaefu/gweithgaredd rheolaeth adnoddau, e.e. mewn cysylltiad â'r nifer o weithiau y gwelwyd draenogiaid y môr, nifer o grancod, corgimychiaid a chimychiaid, a gofynion a osodwyd gan Glastir.

Roedd y rhesymau a roddwyd am newidiadau negyddol yn cynnwys: gofynion rheolaeth dir yn berthnasol i statws Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig; dim caniatâd pellach i adael sgerbydau fel bwyd i'r adar ysglyfaethus; nid yw gwartheg bellach yn broffidiol; rheolau Tir Gofal a Glastir;



problemau mewn mannau eraill e.e. llygredd mewn afonydd (sy'n effeithio'r môr); cynnydd mewn gwellt y gweunydd a rhedyn oherwydd cynnydd mewn nitrogen atmosfferig o ddiwydiant; llai o dda byw (felly llai o adar sy'n cenhedlu ac adar sy'n nythu ar y llawr); cynnydd mewn gwellt y gweunydd oherwydd dirywiad mewn stocio a symud y gwartheg o'r bryniau dros y gaeaf; mwy o uncwrd ar dir fferm; rheolwyr tir y sector cyhoeddus heb ddigon o fedrusrwydd.

Fe ofynnwyd i'r cyfweleion am eu barn am y bygythaid mwyaf i natur ar hyn o bryd. Mae'r rhestr isod yn dangos eu hatebion, gan ddefnyddio eu geiriau nhw.

Fel gydag unrhyw restr o sylwadau ar welliannau a dirywiadau natur (uchod), mae amrywiaeth arwyddocaol o atebion, sy'n adlewyrchu canfyddiadau penodol pobl.

Y bygythiadau mwyaf i natur oedd (heb fod mewn trefn arbennig):

- Polisi amaethyddol ac amgylcheddol – yn annog dull echdynol, ddim yn gwrandao ar ffermwyr, dull 'un ateb sy'n addas i bawb', anhyblygrwydd, amodau dim pori, blaenoriaeth isel i fywyd gwylt, pwysau am effeithlonedd, diffyg atebolrwydd, diffyg ymgysylltiad.
- Newid hinsawdd – cynnydd yn lefel gymharol y môr, llifogydd.
- Amaethyddiaeth dwys, gor-ffermio, gor-bysgota, tyfu uncwrd
- Pori defaid
- Carthu gwaelod y môr yn barhaus am gregyn bylchog
- Sbwriel morol, yn enwedig rhwydi pysgota
- Rhedlif carthffosiaeth
- Dewisiadau ceir yr ymwelwyr
- Diffyg dealltwriaeth a gwybodaeth y cyhoedd/ymwelwyr – cynhyrchu bwyd, mynediad, canfyddiadau'r cyhoedd
- Plaladdwyr
- Plannu coed ar raddfa fawr, ungnwd conwydd
- Daearfoch
- Diffyg porwyr
- Diffyg rheoli'r ysglyfaethwyr
- Diffyg cydnabyddiaeth am wybodaeth ac arbenigeddau'r ffermwyr
- Datblygiadau ffermydd gwynt
- Prynu tir ar gyfer plannu conwydd
- Dulliau caffael – diffyg ymgysylltiad
- Strategaeth archfarchnad
- "Diddymu adnoddau" biomas o goed gan y diwydiant

SYLW

Mae amrywiaeth yr atebion yn adlewyrchu'r gwahanol diddordebau ymhlith yr ymatebwyr. Mae rhain yn cyflwyno man cychwyn i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr er mwyn deall eu pryderon, ond fe fyddai angen mwy o waith i ganfod elfennau'r raddfa, pwysigrwydd, y gallu i ddylanwadu ayyb, ac wedyn ei fwydo i gynlluniau'r prosiect.



3.4 Y rhan mae'r busnesau yn chwarae yn y gymuned leol a'r economi

Mae'r berthynas rhwng busnesau, y gymuned leol a'r economi yn amlweddol.

Mae thema allweddol o gwmpas bwyd, o'i ddarparu a'i werthu, fel bod cefnogaeth i gynnyrch lleol ar gael.

Gwnaeth ymatebwyr y pwynt ei fod hefyd yn bwysig iawn i fusnesau aros mewn gweithrediad, gan ddarparu bywoliaeth i bobl ac yn sicrhau fod unigolion a theuluoedd yn gallu aros i fyw yn yr ardal, ac – yn nhermau economaidd – cefnogi busnesau eraill a chadw'r gwario yn lleol. Mae cadw pobl yn yr ardal yn gysylltiedig â chynnal a chadw'r iaith Gymraeg a chadw treftadaeth leol a diwylliant yn fyw.

Mae elfen gymdeithasol gryf, p'un ai rhwng busnesau unigol neu ar raddfa pentref, yn gysylltiedig ar sut mae busnesau yn cydweithio â'i gilydd, e.e. y mart da byw, neu sut mae cymunedau yn dod at ei gilydd yn gymdeithasol, e.e. yn y ganolfan gymunedol.

Mewn gwrthgyferbyniad i'r syniad o feddwl am gymuned arhosol, mae elfen arall lle mae busnesau yn chwarae rhan allweddol mewn galluogi ymwelwyr i gyfarwyddo a'u hardal leol, cymuned, ffyrdd o weithio a byw, a'u diwylliant.

SYLW

Roedd yn amlwg o'r cyfeliadau fod y busnesau hyn, yn rhagweld llawer mwy na phroffidioldeb masnachol (er bod hynny'n sylfaenol er mwyn galluogi gwytnwch busnes a pharhad i'r dyfodol). Mae ymdeimlad cryf o le a pherthyn, yn sylfaen i'r cyfan.

3.5 Eu dyheadau am y dyfodol

Er mwyn i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr allu cefnogi'r busnesau hyn yn y dyfodol, mae'n hollol hanfodol i ddeall dyheadau'r busnesau, eu blaenoriaethau, a beth all helpu neu eu hatal rhag wneud y newidiadau hyn.

Fe all dyheadau'r busnesau cael eu rhoi o dan nifer o themau, er mae'r manylion yn wahanol i wahanol fusnesau.

THEMA	MANYLION
Arbrofi â phethau newydd a datblygu busnes	Coed afalau mewn ardaloedd cysgodol. Amaeth-goedwigaeth Grŵp Ynni Lleol (cydweithio er mwyn optimeiddio y defnydd o ynni a phrisiau gan ddefnyddio mesurydd deallus a dŵr) Cnydau newydd Dulliau compostau Siarcol a bio-olog Twristiaeth ceffylau Hyrwyddo teithiau cerdded hunan-dywysiedig ar ap Mapiau OS Garddio ferigol Defnydd cynfasau yn seiliedig ar wymon i ddisodli defnydd cynfasau plastig
Trosglwyddo gwybodaeth i eraill	Cynghori eraill am beth fyddai'n tyfu'n well ar y tir



THEMA	MANYLION
	Rhannu canlyniadau rhagbrofion/ymchwil ag eraill Creu ymwybyddiaeth am gynhyrchu bwyd a'r pridd Ehangu hygyrchedd ar y tir Prentisiaethau Grantiau hyfforddi
Codi ymwybyddiaeth am natur, rheoli tir a chynhyrchu	Arddangosfeydd ffotograffiaeth am dirwedd a bywyd gwyllt Cymru Cynnwys ffermwyr mewn trafodaethau ehangach, dod â phobl at ei gilydd o wahanol gefndiroedd Codi ymwybyddiaeth am gynhyrchu bwyd lleol Diweddarau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd am y sefyllfa bresennol
Dilyn dull penodol	Amaeth-goedwigaeth Cynyddu gwartheg y bryniau gan gynnwys gaeafu yn yr awyr agored Cynllun peilot ar gyfer cynhyrchu bwyd sy'n ymwybodol o fywyd gwyllt ar fferm oedd gynt yn fferm odro – garddwriaeth, gwair, gwella glaswelltiroedd a pherthi, plannu coed. Gweithio yn y coetiroedd heb gerbydau a gyda offer llaw, gan gynnwys coedwigaeth gymdeithasol a mynedfa gyhoeddus Mwy o gylchdro cnydau, er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar fewnbnw cemegol Symud tuag at bori holistaidd ac amaethyddiaeth adfywiol Mwy o wartheg ar draws y tirwedd
Gwelliannau ar gyfer natur	Plannu coed Plannu perthi Cynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau'n addas
Cynyddu gwerthiant lleol	Adeiladu siop ar gyfer gwerthu cynnyrch lleol Bod yn rhan o ddiwylliant bwyd lleol ffynnianus Gwerthu cig biosffer wedi'i labeli
Ymchwil	Os all ffwngi mycorhisal torri i lawr darnau o bridd at ddefnydd planhigion Cyfraniad ffermwyr at atafaeliad carbon Astudiaethau dichonoldeb e.e. y cymhelliant i newid i becynnu gwymon Mesur buddion i adfer bywyd gwyllt
Creu perthnasau lleol a chydlynu	Dyddiau agored Grwpiau trafod i gefnogi ar y cyd Gweithgorau o wirfoddolwyr Mwy o lefydd i gyfarfod Cyfle i gwrdd ac i siarad â phobl o'r un meddwl a busnesau Cydgysylltu rhwng gweithwyr coedwigaeth Cefnogi'r rhai sy'n gweithio er newid Cydgysylltu â ffermwyr eraill ar adfer bywyd gwyllt
Lleihau effaith amgylcheddol	Lleihau milltiroedd car Chwilio am ddeunydd 'gorau a gwyrdd'



THEMA	MANYLION
	Mwy o genhedlaeth ynni adewyddadwy – paneli solar, PV, systemau 12v Gosod man gwefru ar gyfer ceir trydan Prynu Car trydan
Cynhyrchu	Cynnal a chadw'r un lefel o gynhyrchu bwyd o'r daliad Cadw cynhwysedd cynhyrchu bwyd yng Nghymru Datblygu cynydu, e.e. llus, cnau cyll, pinwydd Chile, castanwydden bêr, ffrwythau Ehangu barn pobl am wahanol swyddogaethau coed – ffrwythau, biodanwydd, deunydd adeiladu, prydferthwch. Ehangu cynnyrch 'casglu'ch hun' – pwmpenni, llysiau, ffrwythau

Fe geision ni gael y syniad o flaenoriaeth trwy ofyn beth oedd yr un peth a fyddai'n cryfhau eu busnes a sut fyddai'n elwa natur. Roedd yr ymatebion yn amrywio'n fawr ac – fel y basech yn disgwyl – wedi'u haddasu'n unigol i'w busnesau penodol, ond mae rhai ymatebion cyffredin yn ymddangos:

- Ymwybyddiaeth y cyhoedd am reolaeth dir a chynhyrchu bwyd
- Polisi cyhoeddus
- Cyllido a chefnogaeth grant (yn unol â pholisi)
- Argaeledd tir yn lleol
- Cefnogaeth marchnata
- Cyllido hir dymor a chefnogaeth

Cydnabod fod proses llawn yn berthnasol ar gyfer gwneud newidiadau i ddigwydd, a dyma lle all Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr chwarae rhan; roeddwn eisiau asesu mor rhwydd neu anodd oedd y busnesau yn eu barnu y byddai i weld y newidiadau y maent yn eu ceisio, a'r hyn a all hyrwyddo neu rhwystro newid.

Ar y cyfan, roedd busnesau yn besimistaidd ynglyn â pha mor hawdd fasai i gyflawni newid, yn cyfeirio at nifer o ffactorau rhwystredig y tu hwnt i'w gfael. Fodd bynnag, roedd nifer o sylwadau am beth allai helpu.

FFACTORAU O GYMORTH	FFACTORAU SY'N RHWYTRO
Newid cynhyrchu bwyd i'w weld fel gwasanaeth hanfodol yn hytrach na chynnyrch/nwyddau.	Ansicrwydd presennol am ddyfodol polisi amaethyddiaeth.
Deddfwriaeth i hyrwyddo cynhyrchu deunydd cynaliadwy/offer.	Cost, yn enwedig deunydd ac offer 'ecogyfeillgar'.
Mwy o gefnogaeth dechnegol ar gyfer ymchwil.	Cyllid.
Mwy o ryngweithio gydag eraill.	Caniatâd cynllunio.
Mwy o wirfoddolwyr.	Prinder cyngor arweiniol ac arbenigiol yn enwedig ar sail dealltwriaeth ymarferol.
Mwy o ddealltwriaeth cyhoeddus e.e. nad yw ffermio mynydd yn cael yr un effaith negyddol a ffermio dwys, amaeth-goedigaeth.	Meddylfryd gor-symbl a pholareiddiedig.
Mwy o bolisiau amaeth-amgylchedd hyblyg.	Delwedd isel o ffermio.
NRW yn fwy hawdd i gweithio gyda ac i werthu iddynt.	Pryder fod y cyfryngau yn dylanwadu ar benderfyniadau'r llywodraeth.
	Ffordd o weithio'r NRW



FFACTORAU O GYMORTH	FFACTORAU SY'N RHWYTRO
Hwylusydd i helpu pobl ddod i nabod ei gilydd, ac i gydweithio.	Anghenion caffael y sector cyhoeddus ar gyfer tystysgrifo Cyngor Stiwardiaeth
Cyllid ar gyfer costau dechrau busnes, e.e. systemau trin gwartheg.	Coedwigoedd, a'r gost o'i sicrhau.
Cefnogaeth dechnegol, gan gynnwys TG.	Caffael cyhoeddus yn ffafrio'r gost isaf.
Cefnogaeth farchnata.	
Ymlyniad gwleidyddol.	
Argaeledd cyngor prifysgolion.	
Mwy o dir ar gyfer tyfu.	
Mwy o ddealltwriaeth am fioleg y pridd.	

SYLW

Mae'r ymatebion hyn yn dweud wrthym beth mae'r busnesau hyn yn gobeithio gwneud yn y dyfodol neu beth hoffent allu gwneud. Mae hefyd yn dweud wrthym beth sy'n dueddol i'w helpu neu'u rhwystro wrth ddatblygu eu busnesau. Mae'n wybodaeth hanfodol i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr ar gyfer gwneud penderfyniadau am ba ymyriadau ar sail busnes neu sy'n canolbwyntio ar fusnes y gellir ceisio gwneud. Mae'r wybodaeth hon wedi bod yn allweddol yn y dewis o syniadau prosiect arfaethedig yn yr adroddiad hwn.

Mae gweithio gyda busnesau gan dybio fod cryfhau'r mathau hyn o fusnesau hefyd yn dod â buddiannau i natur, ac felly yn beth da i'w gwneud. (Fe allai golygu rhywfaint o esbonio a pheth tystiolaeth yn angenrheidiol ar gyfer rhai cyfranddeiliaid sydd efallai ag amheion ynghylch perthynas bositif rhwng busnes a natur neu sy'n ansicr ynghylch cymorth ariannol i fusnesau unigol).

At hynny, mae'n amlwg fod llawer o'r targedau a soniwyd amdanynt gan y busnesau hyn yn weithgareddau yn yr hyn y maent yn bwriadu sicrhau hyd yn oed mwy o fudd i natur. Gyda'r ffordd hyn o weithio, mae cefnogaeth oddi wrth Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr i'r busnesau hyn yn gymorth i ryddhau buddiannau naturiol ychwanegol.



4 DADANSODDIAD

Yn yr adran hon, fe fyddwn yn cyflwyno crynodeb o ddadansoddiad goddrychol tîm Nearly Wild o'r wybodaeth a gasglwyd.

Y berthynas rhwng busnesau, cymuned/diwylliant a natur

Yn y pen draw, fe ddangosodd yr ymchwil hwn fod rhain i gyd yn cydblethu'n agos. Ni does un peth yn dod o flaen unrhyw un arall. Ni ddylai un digwydd ar draul un arall. Mae un elfen yn cyfrannu at lwyddiant y lleill. Mae'n bwysig i sylweddoli fod pwysigrwydd i bob elfen gwahanol, eu bod yn rhan o'r darlun cyfan.

I nifer o'r unigolion sy'n rhedeg y busnesau, mae cefnogi'r gymuned leol, yr economi a natur yn sylfaenol i'r rheswm i'r hyn maent yn ei wneud. Maent yn gweld eu hunain yn rheoli ac yn cydbwysu'r berthynas cymhleth mewn ffordd sy'n eu galluogi, ac elfennau eraill y rhwydaith, i gynnal eraill a chynnal eu hunain. Mae busnes masnachol llwyddiannus yn rhan gadarnhaol ac un sy'n cyfrannu tuag at y gymuned, diwylliant, lle a natur a all barhau i'r dyfodol, a felly yn helpu cefnogi elfennau eraill o'r we o weithgareddau i barhau.

Busnesau a natur

Roedd y busnesau y siaradon ni â nhw i gyd yn gallu rhoi esiamplau o sut yr oeddynt yn elw i natur. Nid ydym yn gallu dweud os ydy'r busnesau hyn yn fyw 'cyfeillgar i natur' nag unrhyw un arall o'r math, neu os ydy'r busnesau hyn yn arddangos 'ymarferion gorau'.

Fodd bynnag, fe allwn ddweud fod y busnesau hyn i gyd yn gwneud rhywbeth cadarnhaol dros natur. Mae'n drawiadol cymaint sy'n cael ei wneud, a'r amrywiaeth o wahanol bethau. Mae hyn yn rhywbeth i'w ddathlu, ac i rannu. Mae'n brawf o'r pwysigrwydd i gydnabod nad oes sefyllfa syml o 'busnes drwg, natur da'.

Beth sy'n gyffredin i'r busnesau hyn yw'r berthynas arwyddocaol sydd ganddynt gyda natur ac adnoddau naturiol. I rai, mae'n berthynas uniongyrchol lle maent yn rheoli, defnyddio neu cynaeafu'r adnoddau naturiol. I eraill, mae'n berthynas anuniongyrchol ond un lle mae natur wrth wraidd i'w model busnes.

Pwysigrwydd amaeth-amgylchedd a pholisi rheoli adnoddau naturiol

Cyd-destun ein gwaith oedd yr ansicrwydd am gyfeiriad a chynnwys polisi amaeth-amgylchedd y llywodraeth. Hwn yw'r ffactor allweddol ar gyfer gwneud penderfyniadau masnachol i fusnesau fferm, a heb hwn, nid oedd nifer o ffermwyr yn gweld unrhyw rheswm i gyfrannu at y gwaith hwn, tra bod eraill yn teimlo nad oeddynt yn gallu rhoi cyfeiriad diffiniol iawn am y dyfodol neu am weithgareddau penodol neu gynlluniau busnes. Rhaid strwythuro unrhyw weithredoedd a ddaw o'r gwaith hwn mewn ffordd nad ydynt yn cau allan cyfranogwyr o fentrau polisi y llywodraeth yn y dyfodol.

Mae gan ffermwyr a rheolwyr tir eraill eu barn eu hunain am lwyddiant neu fel arall gynlluniau amaeth-amgylchedd ar gyfer rheolaeth, cynhyrchiad a gwerth natur ar eu tir. Ni glywsom neges unedig.

Wrth edrych tua'r dyfodol, roedd llawer o'r busnesau fferm a rheolwyr tir/adnoddau naturiol eraill yn awyddus i allu dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth. Yn sylfaenol, yr angen i'w lleisiau cael eu clywed a chydabod eu gwerth a chael eu parchu mewn perthynas â datblygu polisiau. Yn nhermau cynnwys y neges, roedd cynigion amrywiol ar gyfer cefnogi natur o fewn systemau cynhyrchu, gyda'r thema craidd y dylai unrhyw bolisi bod yn ateb y gofyn ar lefel leol (yn lle'r agwedd 'un ateb sy'n addas i bawb'), a chydabod arbenigedd a gwybodaeth leol.



Rheolaeth adnoddau naturiol, nid dim ond amaethyddiaeth

Yn y gwaith hwn, rydym wedi ceisio clywed oddi wrth amryw mathau o fusnesau sy'n rheoli'n uniongyrchol, defnyddio neu'n cynaeafu adnoddau naturiol, mynd y tu hwnt i ffermio gan gynnwys coedwigaeth, garddwriaeth, pysgodfeydd, planhigfeydd a mwy. Mae gan bob busnes ei safbwynt, pryderon a dyheadau ei hun sy'n berthnasol i'w ffordd ei hun o weithio a'i berthynas ag adnoddau naturiol. Mae hyn yn creu patrwm unigryw ar draws y tirwedd, ynghyd â'r economi sy'n seiliedig ar adnoddau naturiol.

Fe glywsom fod rhai eisiau i'w statws unigryw gael ei gydnabod, fel bo'r gwahanol fusnesau natur-ganolog yn cael eu cynnwys yn argraffiadau llunwyr polisi, deddfwyr a'r cyhoedd ynghylch effaith gweithgareddau masnachol ar natur.

Carbon

Roedd atafaeliad carbon ynghyd ag atredau yn bynciau llosg i'r busnesau fferm y buom yn siarad â nhw; yn enwedig yn nhermau'r awydd i sicrhau fod eraill yn deall y rhan y gall ffermio chwarae mewn atafaeliad, ynghyd â'r ofnau sydd gan ffermwyr ynghylch prynu tir ar gyfer atredu trwy blannu coed.

Nid yw'n sefyllfa syml. Ceir arlliw i'r drafodaeth yn ogystal â llawer o gwestiynau ac ychydig o atebion sydd â thystiolaeth.

Roedd yn amlwg bod yna brinder gwybodaeth gywir, er enghraifft, am sut y mae ymarferion amaethyddol gwahanol yn cyfrannu tuag at atafaeliad carbon, a sut mae hwn yn cymharu â phlannu coed? Ond yn gyntaf oll, mae'n allweddol i adnabod pa rai yw'r cwestiynau pwysicaf i'w hateb. Bydd hwn yn galw am ystyriaeth bellach.

Yn ogystal, codwyd amheuan y gallai prynu tir er mwyn plannu coed arwain at ganlyniadau negyddol: i gymunedau lleol petai teuluoedd ffermwyr yn symud i ffwrdd, ar gyfer dŵr ag ansawdd pridd ynghyd ag amrywiaeth yr ecosystem petai plannu ar lefel mawr, ac yn ei dro, y cynaeafu; ar gyfer cynhyrchu bwydydd wrth i dir cael ei eithro o dyfu cnydau neu fagu da byw.

Tirlun cynhyrchiol

Neges glir a ddaeth o'r busnesau fferm oedd pwysigrwydd parhau gyda'r gallu i gynhyrchu bwyd o'r tir. Mae yna bryderon ynghylch cyfyngiadau a bygythion i gynhyrchu, yn ogystal â syniadau. Dangosodd ein cyfweiliadau bod yna ffermwyr a chynhyrchwyr eraill sydd wedi rhoi ystyriaeth fanwl i agweddau newydd neu wahanol ar gynhyrchu bwyd, bod ganddynt syniadau y credant y byddent yn fuddiol i natur ac yn dda i fusnes. Cysyniadau sydd ar y gweill yw rhai o'r rhain, tra bod eraill yn barod i'w gweithredu; mae rhai ond yn briodol i leoliad unigol tra byddai angen sawl lleoliad ar eraill.

Serch hynny, mae cynhyrchu yn golygu mwy na chynhyrchu bwyd yn unig. Mae'r busnesau y buom yn siarad â nhw yn awyddus i agweddau eraill ar gynhyrchu i fod yn fwy gweladwy, ac i gael y cyfle i ddatblygu syniadau ynghylch agweddau eraill ar gynhyrchu, e.e. cnu a ffeibr, a pheycynnu broc môr.

Yr elfen leol

Mae busnesau yn awyddus fod unrhyw fenter yn y dyfodol, ynghyd â pholisi cenedlaethol, yn rhywbeth sy'n addas i'w sefyllfa leol.

At hyn, bod unrhyw fenter yn cydnabod hunaniaeth ardal a bod yr hyn sy'n 'lleol' mewn cymuned ar adegau ddim yn cydweddu â ffin gweinyddol penodol. Mewn gwirionedd, yr ymdeimlad o le sydd ddim bob tro yn meddu â ffin penodol ar fap.



Y naratif

Yn ein trafodaethau roedd yna thema yn ail adrodd ynghylch sut i greu a chyfrannu at naratif a fyddai'n darlunio'n gywir rheolaeth a defnydd adnoddau naturiol yr ardal, darlun a fyddai'n cynorthwyo'r cyhoedd i ddeall mwy ynghylch cynhyrchu bwyd.

Mae'n eglur fod rhai ffermwyr a rheolwyr tir yn teimlo rhwystredigaeth: yr ymdeimlad nad yw eu llais i'w glywed yn y llefydd lle y teimlant y dylid; teimlo bod eu gwaith yn cael ei gamddeall a'i weld yn negyddol yn ddianghenrhaid; teimlo bod eu cyfraniadau cadarnhaol at rai o bynciau mawr y dydd (newid hinsawdd, atafaliad carbon, darpariaeth bwyd lleol) heb eu cydnabod.

Y cwestiwn felly yw, beth all mentrau fel Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr eu cynnig? Beth allant wneud na all unrhyw fudiad neu asiantaeth gynnig? Beth sy'n eu gosod mewn gwell safle, neu safle unigryw i allu gweithredu? Beth sy'n briodol wrth ystyried eu hamgylchiadau?

Ymchwil ystyrion a thystiolaeth, wedi ei greu a'i berchnogi'n lleol

Cyfeiriodd amryw o'r rhai a gafodd eu cyfweld at yr angen am fwy o wybodaeth fel cefndir i'w penderfyniadau, e.e. ansawdd pridd, ynghyd â dewisiadau pobl eraill, e.e. cyfraniad pori at atafaelu carbon.

Yn ogystal, daeth neges glir oddi wrth ffermwyr a rheolwyr tir eraill eu bod yn teimlo bod ganddynt wybodaeth gwerthfawr a sgiliau i gynnig at greu corpws o wybodaeth newydd, ond teimlwyd nad oedd y strwythur i wneud hyn ar gael ar hyn o bryd.

Cydnabyddwyd gwerth asiantaethau a mudiadau allanol ym meyseidd ymchwil a chasglu gwybodaeth, cynllunio a darparu, e.e. prifysgolion ac adrannau llywodraeth; ond roedd awydd gref i weld y berthynas rhwng perchennog yr adnodd/rheolwr a'r sefydliad i fod yn fwy cyfartal, gyda mwy o gydnabyddiaeth a pharch, er mwyn cyd berchnogi a defnyddio'r data a gynhyrchir.

Cefnogi busnesau fel rhan o'r ateb

Cred y sawl sydd mewn busnes a gyfrannodd at y gwaith hwn, y gallant fod yn rhan o'r datrysiad i rai o'r problemau dyrys yr ydym yn eu gwynebu ar hyn o bryd, e.e. trefniadau poriant ffermwyr er mwyn cynorthwyo atafaelu carbon, rheolaeth tymor hir rheolwyr coedwigaeth a'u cynllunio i gadw a gwella bioamrywiaeth, ymarferion pysgodfeydd morol wrth geisio ailadeiladau y stoc bysgod.

Mae yna hefyd archwaeth at fabwysiadu ymarferion busnes a fyddai'n achosi llai o ddifrod i'r amgylchedd, ynghyd â gweithio (fel y gwna rhai eisioes) mewn ffyrdd sy'n annog eraill i feddu ar fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o natur ac adnoddau naturiol.

Ar yr un pryd, gwyddom fod yna unigolion, busnesau a mudiadau sydd, am wahanol resymau, yn awyddus i gymryd camau pendant. Mae Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr, yn rhan o gyd-destun ehangach – adferiad natur, newid hinsawdd, cymunedau cynaliadwy, polisi amaeth, cynhyrchu bwyd, i enwi ond ychydig. O'r lleol i'r cenedlaethol, unigolion i asiantaethau, mae yna gefnogaeth i'r math o gyfeiriad y mae Menter Mynyddoedd Cambria ynghyd ag O'r Mynydd i'r Môr yn cymryd neu yn ymddiddori ynddo. Y cwestiwn yw, sut i'w harnessu fel y gellir creu sefyllfa lle y bydd pawb yn elwa.

Serch hynny, ar hyn o bryd, nid oes yr un fecanwaith mewn lle a all gysylltu'r busnesau hyn sy'n gefnogol i natur gydag unrhyw un o'r unigolion, mudiadau neu gorfforaethau sydd yn awyddus i fynd i'r afael â'r problemau dyrys hyn ag sydd eisioes yn ei ariannu.



Sut y gall ffermwyr, coedwigwyr a pherchnogion a rheolwyr adnoddau naturiol eraill fantesio ar y bobl a'r mudiadau hynny sydd a'r ewyllus a'r gallu i gyflawni 'pethau da' ar gyfer natur a'r amgylchedd, tra'n cadw'r perchnogaeth a'r rheolaeth yn lleol? A fyddai modd i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr gynorthwyo i adeiladu'r strwythur hwn, o bosib fel rhyw froceriaeth yn cysylltu cefnogwyr posib i'r rhai sy'n 'barod i wneud'?

Rhywbeth arbrofol a hir dymor fyddai hwn, heb unrhyw sicrwydd o lwyddiant. Gallai agwedd 'gwobrwyo risg' fod yn gymorth wrth ystyried hwn. Wrth hyn, ystyriwn feddwl am sut y gall gweithgaredd neu brosiect gyda risg gymharol cael ei gefnogi pe byddai ei lwyddiant yn dod â budd a gwerth ychwanegol, h.y. byddai'r risg ychwanegol yn werth ei gymryd am y byddai'n gallu sicrhau gwahaniaeth nodedig petai yn llwyddiannus. Mae hwn yn hynod berthnasol wrth ystyried y pwysau anferthol a wynebwn ar hyn o bryd mewn perthynas â newid hinsawdd, cyrraedd targedau sero net ac adfer natur.

Enghraifft o hyn yw carbon, a oedd o'r pwys mwyaf i flaenoriaethau llawer o'r busnesau a fu'n gysylltiedig â'r gwaith hwn. Soniwyd am fygythiadau/bwyntiau negyddol, gan gynnwys: ffermydd yn cael eu gwerthu i gorfforiaethau gyda'r nod unigol o blannu coed ac felly'n fygythiad o leihau bioamrywiaeth, colled mewn cynhyrchu bwyd, effeithiau negyddol ar gymunedau gwledig ac ati; llunwyr polisi cenedlaethol yn cymryd penderfyniadau pwysig ynghylch cymorth ariannol i amaeth a newid hinsawdd heb feddu ar yr wybodaeth gywir; gyda thyddynwyr a rheolwyr tir eraill yn yr ardal leol yn analluog i dderbyn adnoddau ariannol a dargedwyd at atafaeliad carbon (p'run bynnag ffynhonell y cyllid hwnnw).

Ar y llaw arall, clywsom am amrywiaeth o gyfleon oedd â photensial i greu gwir werth: atafaelu carbon trwy reolaeth barhaol o dir (gyda monitro/ymchwil yn rhoi tystiolaeth o hyn), cyfrannu at ymgyrchoedd cenedlaethol i fynd i'r afael â newid hinsawdd ynghyd â gwybodaeth a dulliau monitro; manteisio ar ymarferiadau rheolaeth dir ac adnoddau naturiol sydd eisioes mewn lle, gan adeiladu ar adnoddau sydd yno eisioes ynghyd ag arfer da; cadw ffermwyr a'u teuluoedd ar y tir ac yn y gymuned gan fantesio ar eu gwybodaeth a'u sgiliau, adfer eu cyfraniadau ehangach i'r gymuned a'r economi gan hyrwyddo treftadaeth a diwylliant yr ardal; parhau i gynhyrchu bwyd a chynhyrchion eraill oddi mewn i'r ardal leol.

Gall Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr gynnig eu hunain fel mentrau sy'n barod i gymryd camau mawr tuag at fynd i'r afael â'r problemau dyrys ond holl bwysig, materion newid hinsawdd, carbon sero net, adfer natur a chefnogi gweithgarwch arloesol sydd, yn eu hanfod yn weithgareddau â risg. Mae yna fusnesau o fewn yr ardal sy'n credu y gallant fod yn rhan o'r ateb, petaent yn derbyn y cymorth i wireddu eu syniadau.

Cydlynu gyda chynlluniau gwaith ac arloesoli sydd eisioes mewn bodolaeth.

Rhaid ystyried unrhyw syniadau a chyfeiriad a ddaw o'r gwaith hwn yng ngoleuni pwy sydd eisioes allan yno a beth y maent yn ei wneud. Beth allant ei barhau? Beth sy'n syrthio rhwng dwy stôl? Oes rhywbeth arbennig sydd angen i Fenter Mynyddoedd Cambria neu/a O'r Mynydd i'r Môr ei wneud, ac os oes, beth? Pa fylchau sydd fwyaf cymwys ar gyfer Menter Mynyddoedd Cambria neu/a O'r Mynydd i'r Môr?

Ein hargraff yw y gallai Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr lenwi bwlch ar raddfa 'clwstwr', h.y. gweithio dros ardal sy'n tynnu nifer o reolwyr a defnyddwyr adnoddau naturiol at ei gilydd. Nid ydym yn rhagweld maint delfrydol unrhyw glwstwr, yn hytrach, sefyllfa o dynnu at ei



gilydd pa grwpiau bynnag sydd fwyaf addas ar gyfer y pwrpas, a thynnu clystyrau gwahanol at ei gilydd at amryw bwrpas.

Gan ddefnyddio enghreifftiau a godwyd gan gyfrannwyr i'r gwaith hwn, fe all fod clwstwr o ffermwyr oddi mewn i ardal sydd yn ymdeimlo'n wir gymuned/dirwedd iddynt hwy ac sydd yn ardal resymol mewn ystyr o dirwedd, e.e. talgylch. Byddai hyn yn dwyn at ei gilydd ffermwyr â ganddynt ddiddordeb arbennig mewn treialu perthynas weithiol newydd i uno ffermydd yr ucheldir gyda rhai yr iseldir er mwyn cynhyrchu buddiannau y naill i'r llall. Neu fe all fod yna glwstwr o reolwyr coedlannau a busnesau cynnyrch coedlannau dros ardal gymharol eang, yn creu digon o farchnad fasnachol ac adnoddau i wneud rhannu offer trin coed yn hyfyw, gan rannu problemau ac atebion ynghylch marchnata'r cynnyrch.

Agwedd arall ar gydlyniant rhaglenni a mentrau eraill yw lleoliad prosiectau'r dyfodol, pwy sy'n atebol dros beth. Oes yna gorff sydd eisioes yn bodoli sy'n gallu ymgymryd â'r gwaith, neu a oes angen corff a threfniant newydd? Does dim modd ateb y cwestiwn hwn ar unwaith, mae'n dibynnu ar y penderfyniadau a wneir ynghylch pa waith prosiect i fwrw ymlaen ag e trwy waith datblygu cyfredol O'r Mynydd i'r Môr ynghyd â chynllunio ar gyfer y dyfodol ar ran Menter Mynyddoedd Cambria; yn ogystal â'r egwyddorion sy'n sylfaenol i'r gwaith prosiect hwnnw. Er enghraifft, mae rheolaeth fenter sy'n wir gynhyrchol ac yn cael ei yrru gan broses yn wahanol iawn i fenter draddodiadol sy'n seiliedig ar brosiect a gefnogir gan grant; mae menter sy'n ymwneud ac yn cefnogi mentrau busnes unigol yn wahanol iawn i un sydd â nod llwyr elusennol.

Beth sydd mewn enw?

Yn yr achos hwn, cryn dipyn! Mae angen i beth bynnag a wneir yn y dyfodol teimlo'n iawn i'r rhanddeiliad a'r cyfranogwyr. Bu gan O'r Mynydd i'r Môr ddechreuad anodd, fe fyddai ei ailgyfeirio a'i wir botensial ar gyfer dyfodol bositif yn elwa o feddu enw gwahanol.

Mae'n debyg y bydd gwaith y dyfodol yn cael ei gyflawni gan agwedd a fyddai'n ceisio fod yn gynhyrchol ar y cyd, ac fe ddylai'r enw yn ddelfrydol adlewyrchu'r cydweithio mewn enw sy'n cael ei arddel gan y cydweithwyr newydd, pa un ai Menter Mynyddoedd Cambria neu O'r Mynydd i'r Môr neu hyd yn oed cydweithrediad ehangach neu wahanol. Mewn gwirionedd, gyda nifer o'r cydweithwyr hyn yn perchnogi mentrau sydd mewn bodolaeth, pob un gyda'i 'hanes' ei hun, byddai enw sydd yn newydd i bawb yn rhywbeth buddiol.

Newid gweledol

Mae hanes prosiectau yn mynd a dod, gyda llwyddiant amrywiol yng ngolwg y rhanddeiliaid, yn golygu bod angen i o leiaf rhywfaint o waith y dyfodol sy'n dilyn, digwydd yn weledol yn gyflym. Rydym yn cydnabod fod yna weithgareddau o botensial a all gymryd amser i'w gwireddu, yn enwedig os ydynt yn cael eu ymgymeryd mewn modd ar y cyd lle y mae'r broses ei hun mor bwysig a'r cynnyrch. Serch hynny, fe fyddai niwed i enw da a fyddai'n effeithio'n negyddol ar allu'r mentrau i gyflwyno yn y tymor hir pan fyddai'r rhanddeiliaid lleol yn gweld newidiadau yn y tymor byr ac ar y llawr.

Wrth gydnabod bod yna amryw o opsiynau o brosiectau â photensial yn deillio o'r gwaith hwn, dichon fod Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn gallu adnabod rhai sydd ag 'enillion cyflym', a thrwy hyn creu cefnogaeth ac ewyllys da ar gyfer y gwaith hir dymor.



5 CYSYNIADAU PROSIECTAU ARFAETHEDIG

Fel contractwyr allanol, nid ydym mewn sefyllfa i ddweud pa brosiectau y dylai Menter Mynyddoedd Cambria neu O'r Mynydd i'r Môr ymgymryd â nhw, ac yn fwy felly o ystyried yr agweddau at ddatblygu cymunedol a chyd-gynhyrchiol y mae'r ddau yn eu harfer.

Serch hynny, gallwn gynnig cysyniadau prosiectau i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr y gallant eu defnyddio yn eu proses o benderfynu. Daw'r cynigion hyn yn sgil y cyfweiliadau a'r gweithdai a gynhaliwyd gydol y gwaith hwn. Ein bwriad yn yr adran hon o'r adroddiad yw i gyflwyno pob cysyniad, yn ogystal â rhai syniadau ar gyfer eu trosglwyddiad gan edrych hefyd ar ba wahaniaeth y gallai'r prosiectau hyn eu gwneud (canlyniadau ac effeithiau posib).

5.1 Egwyddorion cymorth

Os yw O'r Mynydd i'r Môr a Menter Mynyddoedd Cambria i fod o wir gymorth ymarferol i'r busnesau hyn, tra ar yr un pryd gweithio tuag at newid positif i natur yn yr ardal, awgrymwn fod yna ffyrdd neilltuoel o feddwl a gweithio – egwyddorion efallai – a fyddai'n bwysig. **Rhaid i fusnesau gweithredu fel busnesau** h.y. bod ganddynt y gallu i wneud penderfyniadau sydyn, ymateb i newid, yn ymroddedig i alluogi datblygiad busnes, yn ddarostyngedig i lif arian, yn gystadleuol yn y farchnad, gan geisio elw ac ati. Ni ddylai Menter Mynyddoedd Cambria neu O'r Mynydd i'r Môr danseilio gallu busnes lleol i weithredu'n effeithiol.

Ymrwymiad hir dymor yn unol â safbwynt hir dymor y perchennog busnes i gynnal busnes cryf a hydwyth sy'n wir gyfrannu at neu'n darparu ei fywoliaeth gyfan.

Ond...**Byddwch yn hyblyg** i allu cynnal y busnesau wrth iddynt ymdopi neu newid cyfeiriad er mwyn cyfarfod â'r angen wrth i amgylchiadau newid.

Busnes cryf, natur cryf h.y. cydnabod fod y busnesau hyn os ydynt yn llwyddo a goroesi, hefyd yn cynorthwyo natur yr ardal leol i lwyddo a goroesi. Helpu i chwalu'r myth fod pob busnes yn wael i natur!

Parch, y naill i'r llall, gwranddo ar bob un. Cydnabod gwerth cyfraniad pawb yn y drafodaeth.

Cadw'n glir rhag weithgarwch a gefnogir gan bolisi Llywodraeth Gochel rhag ddyblygu unrhyw gymorth a gynigir trwy gefnogaeth y Llywodraeth. Gofalu nad yw cefnogaeth Menter Mynyddoedd Cambria neu O'r Mynydd i'r Môr yn peryglu cyfle unrhyw fusnes i sicrhau cymorth llywodraethol.

Ymochri gyda thirwedd a chymunedau lleol. Deall pa gymunedau y mae'r bobl a'u busnesau yn uniaethu â nhw, yn ymwneud â nhw ac yn eu gwerthfawrogi. Parchu a chydweithio gyda'r cysylltiadau anweledig hyn, ynghyd â'r dearyddiaeth, yr hanes a'r diwylliant.

Gweithgarwch gweledol. Rhywfaint o waith sy'n cynnig tystiolaeth weledol yn gynnar yn y broses, sy'n dangos gweithgarwch a gefnogir gan Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr.



5.2 Cysyniadau prosiect

Roedd gan fusnesau amryw o awgrymiadau ar gyfer y mathau o newidiadau yr hoffent wneud a fydd, yn eu barn, yn gymorth i'w busnesau ynghyd â natur.

Defnyddiom ein trafodaethau er mwyn ceisio darganfod eu meddyliau ynghylch lle y gallai Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr chwarae rhan bosib mewn hyrwyddo eu syniadau a'u dyheuadau. Beth allai Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr wneud dros y busnesau na fedrent wneud eu hunain? Hefyd, tra bod neb arall yn gwneud hynny ar hyn o bryd? Pa ymyrraeth neu ffyrdd o weithio a allai fod yn gymorth neu yn rhwystr?

Trwy ein proses fewnol o ddadansoddi, daeth themâu i'r amlwg ac rydym wedi adeiladu ar y rhain i greu cysyniadau prosiectau posib. Bydd angen ymchwil pellach a datblygiad ar bob un ond, mewn cytgordd â dulliau gweithio Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr, byddai'n well gwneud hyn gyda'r busnesau eu hunain, gan adeiladu ar y mynegiant gwreiddiol o'r cysyniad. Sylwch nad ydynt yn brosiectau cydanghynhwysol ond, yn hytrach, yn ffurfio syniadau sy'n gorgyffwrdd (fe'u cyflwynir isod, heb fod mewn unrhyw drefn benodol).

Ymchwil rheolwr
adnoddau naturiol
cynhwysol

Gwelliannau natur
ar raddfa tirwedd

Cefnogi'r busnesau
hyn fel rhan o'r
ateb i garbon

Cynhyrchiant
mewn sawl
deimensiwn

Adeiladu a
hyrwyddo'r naratif

Offer, deunyddiau
ac ymarferion eco-
gyfeillgar

Figwr 1: Crynodeb o gysyniadau prosiect



Ymchwil cynhwysol gyda rheolwr a defnyddwyr adnoddau naturiol

Problem/cefndir

- Teimla ffermwyr nad yw eu gwybodaeth yn cael ei werthfawrogi, yn enwedig mewn perthynas a'u gallu i ddylanwadu ar bolisi neu gynllunio pecyn cefnogaeth.
- Rheolwyr tir yn awyddus i dderbyn mwy o ddata ynghylch eu meddiannau, ac yn awyddus i berchnogi'r data hwnnw.
- Blaenoriaethau rheolwyr tir ar gyfer gwella data yn cynnwys bioamrywiaeth, ansawdd pridd ac yn enwedig atafaeliadau carbon.

Ateb / cysyniad prosiect

- Ymchwil 'Prif bwnc' gan ffermwr / rheolwr tir sy'n cynnwys eu gwybodaeth lleol.
- Partneriaethau a chydweithio gydag arbenigwyr technegol ac adnoddau.
- Gwaith ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu mewnbwn ar sail gwybodaeth i ddatblygu polisi a chyllido.

Canlyniadau/effeithiau

- Rheolwyr tir yn dechrau dylanwadu ar bolisi amaeth amgylcheddol; yn teimlo eu bod wedi eu cynnwys ac yn cael eu gwerthfawrogi yn y broses penderfynu.
- Rheolwyr tir yn rhannu perchnogaeth data sy'n berthnasol i'w tiroedd.
- Corff cynyddol o ddata ar y prif bynciau ar gyfer rheolwyr tir y gellir ei rannu ar gyfer lles ehangach.



Gwelliannau natur ar raddfa tirwedd

Problem/cefndir

- Mae llawer o berchnogion busnes yn cymryd camau pendant i hyrwyddo gwelliannau ac yn sylwi ar y gwahaniaeth. Croesawant gefnogaeth i hyn.
- Mae gan ffermwyr brofiadau cymysg ynghylch yr amodau a osodwyd ar gyfer eu rheolaeth tir trwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol; rhai yn gadarnhaol, a rhai yn llai felly. Nid ydynt yn awyddus i wneud dim gyda Menter Mynyddoedd Cambria neu O'r Mynydd i'r Môr a fydd yn effeithio'u gallu i rannu ym mha bynnag gynllun a ddaw nesaf.
- Ymddengys fod y 'bwlch' i'w ganfod yn y gefnogaeth ar raddfa fawr yn hytrach nag ar ddaliad tir unigol, sy'n galluogi daliadau tir o unrhyw faint i chwarae rhan; mae peth awydd i gydweithio ar draws daliadau tir.

Ateb/cysyniad prosiect

- Dynodi ardaloedd o gydweithio addas, e.e. talgylch, neu grwp gydweithredol o ffermwyr sydd eisioes mewn bodolaeth
- Prosiect i fynd i'r afael â blaenoriaeth natur leol adnabyddus (gan gydnabod yr angen am gefnogaeth hir dymor dros flynyddoedd).
- Cyfle i dreialu atebion mwy arloesol â'r potensial am fwy o risg

Canlyniadau /effeithiau

- Tir feddiannwyr / rheolwyr yn allweddol wrth gyflawni gwelliannau natur, tra'n sicrhau trefniadau masnachol cadarn.
- Newidiadau cadarnhaol mesuradwy i flaenoriaeth natur benodol.
- Dysg gwerthfawr ynghylch ymagweddau addas i wella natur.



Cefnogi busnes i fod yn rhan o'r ateb i ddatgarboneiddio

Problem/cefndir

- Mae cryn ddiddordeb ar ran y cyhoedd, cyrff cadwriaethol a busnesau mewn stiwardiaeth raddfa fawr i ddod o hyd i atebion i garbon.
- Mae gofid ymhlith ffermwyr a pherchnogion tir eraill ynghylch effeithiau posib atafaelu carbon ar arferion tir, cynhyrchiant bwyd a bywyd y gymuned.
- Ar hyn o bryd mae'r dystiolaeth yn annigonol ynghylch swyddogaeth bori a phorfeydd mewn atafaeliad carbon.

Ateb/cysyniad prosiect

- Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr i gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir i greu atebion i broblem carbon (lleihau a dal).
- Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr i chwarae rhan ymarferol mewn casglu gwybodaeth ynghylch atebion i garbon a'i rannu yn yr ardal leol trwy gefnogi ymchwil, treialu a rhannu gwybodaeth.
- Ymchwilio i sut y gall Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr chwarae rhan fwy canolog mewn atebion i garbon, e.e. y posibilrwydd o rôl broceriaeth; strwythur i ddod â chefnogwyr (unigolyn neu fusnesau), tir feddiannwyr/rheolwyr i gyfuno adnoddau a chydweithio tuag at amrywiol ganlyniadau gan gynnwys adferiad natur ac atafaelu carbon.

Canlyniadau / effeithiau

- Tystiolaeth gynyddol ynghyd â gwybodaeth ynghylch swyddogaeth bori a phorfeydd mewn atafaeliad carbon sy'n berthnasol i'r ardal leol.
- Tirfeddiannwyr a rheolwyr yn bartneriaid wrth gasgu'r wybodaeth hon.
- Darganfod atebion lleol i garbon sy'n gweithio i dirfeddiannwyr/ rheolwyr ynghyd â'r gymdeithas ehangach gan gyfrannu at y dasg o fynd i'r afael â newid hinsawdd.



Cynhyrchiant – mewn sawl deimensiwn

Problem

- Pryder na fydd polisi amaeth-amgylcheddol newydd yn gosod digon o bwyslais ar gynhyrchu bwyd yn lleol.
- Pryder nad yw aelodau'r cyhoedd yn meddu ar wybodaeth ddigonol ynghylch cynhyrchiant bwyd.
- Amharodrwydd i dreialu pethau newydd, e.e. cnydau newydd, dulliau newydd o gynhyrchu.
- Yr angen am ymwybyddiaeth fod cynhyrchu o adnoddau naturiol yn cwmpasu mwy na bwyd, e.e. ffeibr, coed, meithrin cnydau.
- Rhai cynhyrchwyr yn brin o hyder a gallu i farchnata.

Ateb/cysyniad prosiect

- Cyflwyno lleisiau ffermwyr a chynhyrchwyr eraill i'r maes polisi, wedi'i gefnogi gan dystiolaeth leol gywir ynghylch y gwahanol busnesau seiliedig ar natur oddi mewn i'r ardal.
- Adeiladu rhwydwaith o gydweithrediad cynhyrchwyr lleol i hyrwyddo a sylweddoli'r gadwyn gynhyrchu lleol
- Darparu ystrwythur i gynnal treialu ffyrdd newydd o weithio, dysgu ac uwchraddio.

Canlyniadau/effeithiau

- Ffermwyr a chynhyrchwyr eraill yn teimlo fod yna strwythur lleol i'w lleisiau cael eu clywed yn y manau sy'n cyfrif.
- Mae deall yn golygu tyfiant, a chynhyrchwyr yn gweld adlewyrchiad mwy cywir o'u realiti
- Prynwyr (unigol neu ar raddfa fwy) yn gallu dod o hyd i gynnyrch lleol yn rhwydd.
- Daw'r ardal yn adnabyddus am ei heconomi seiliedig ar natur, 'natur bositif'.
- Arbrofion yn arwain at atebion effeithiol i fusnesau, natur a hinsawdd.



Adeiladu a hyrwyddo'r naratif

Problem/cefndir

- Yr argraff o ddiffyg dealltwriaeth cyhoeddus ynghylch swyddogaeth bositif ffermio a rheolwyr adnoddau naturiol arall mewn cadwraeth natur, lleihau carbon, cynhyrchiant bwyd a gwydnwch cymunedau.
- Pryder fod neges y cyfryngau yn tueddu i fod yn or-syml, gan gollu ystyriaethau gwerthfawr.
- Teimla busnesau fod ganddynt rywbeth i'w ddweud o arbenigedd a phrofiad, ond nad ydynt yn cael eu clywed.

Ateb/cysyniad prosiect

- Cynnwys busnesau yn y broses o adeiladu a chynnal corff o dystiolaeth, fel adnodd i negesu'n gywir.
- Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn weithgar i greu negesu a ffurfio naratif newydd.
- Darparu modd i fusnesau mynd a'u lleisiau at drafodaethau a'r broses penderfynu; dynodi sianelu effeithiol i wneud hynny.

Canlyniadau/effeithiau

- Rhanddeiliaid allweddol a mwy o'r cyhoedd yn deall yr arlliw ynghylch rheolaeth dir, natur, cynhyrchiant bwyd ac ati.
- Atebion lleol i'w clywed yn ehangach, gan werthfawrogi gwybodaeth busnesau.
- Bod yr wybodaeth gywir ar gael yn y maes gyhoeddus.
- Aelodau'n teimlo fod ganddynt lais gan gyflwyno ymatebion i'r cyrff, y cyfryngau a'r asiantaethau perthnasol.
- Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Mor yn cael eu gweld fel ffynonellau i droi atynt am wybodaeth.



'Cyfarpar, deunyddiau ac ymarferion sy'n dda i'r amgylchedd'

Problem/cefndir

- Mae yna lefel uchel o ymwybyddiaeth a diddordeb mewn rhedeg busnesau mewn ffyrdd sy'n bositif tuag at natur a'r amgylchedd, ac mae yna eisioes lawer o arfer da yn perthyn i fodolau busnes.
- Tra bo diddordeb mewn datblygu ymhellach ac arbrofi, mae yna rhwystrau gan gynnwys cost a mynediad at wybodaeth ddibynnol.
- Ochr yn ochr â'r buddion sydd ynghlwm â gweithio yn y ffordd hon (dyma'r cymhelliant yn aml), mae gwerth masnachol hefyd i'w gael.

Ateb/cysyniad prosiect

- Adnabod pethau lle y gallai dull gydweithredol bod yn gymorth, e.e. prynu ar y cyd, chwilio cyngor, cynnal arbrawf.
- Galluogi addysgu ar y cyd rhwng busnesau ynghylch yr hyn sy'n gweithio.
- Defnyddio'r ddysg oddi wrth hwn i gyfrannu at y naratif sy'n datblygu a sut y mae busnesau lleol yn fuddiol i natur.

Canlyniadau /effeithiau

- Atebion newydd sy'n galluogi busnesau i weithredu mewn ffordd sy'n gadarnhaol i natur a'r amgylchedd, rhannu dysg a'i weithredu'n ehangach ar draws yr ardal. Cyfrannu ar yr un pryd at fudd masnachol.
- Buddiannau mesuradwy i natur lleol a'r amgylchedd.
- Cefnogi busnesau i addasu at effeithiau newid hinsawdd a'u galluogi i gyfrannu at liniardiadau.



5.2.1 SYLWEBEAETH

Mae'r cysyniadau prosiect a gynigir uchod yn gam cyntaf, wedi eu mynegi mewn ffordd sy'n galluogi O'r Mynydd i'r Môr a Menter Mynyddoedd Cambria i ddychwelyd at eu prosesau datblygu ehangach a'u defnyddio fel sail trafodaeth gynhyrchiol gyda rhanddeiliaid.

Gyda'r ffyrdd o gydweithio a chyd-gynhyrchu a ddefnyddir gan y ddwy fenter, mae'n hanfodol fod y rhanddeiliaid cywir ar gyfer pob prosiect yn gallu ymwneud yn llwyr i'w hyrwyddo. Wrth wneud hyn mae'r blaenoraethau holl bwysig ynghyd â'r cynlluniau cyflwyno manwl yn cael eu perchnogi ganddynt ac yn cael eu gyrru ganddynt.

Mae yna ychydig o ystyriaethau gwahanol yr hoffem ddarparu ar gyfer y rhanddeiliaid gan ofyn iddynt gadw mewn cof wrth iddynt ymgymryd â'r cysyniadau. Y rhain yw:

- Bydd creu cronfa o dystiolaeth cywir yn ganlyniad ac yn adnodd ar draws amryw o weithgareddau prosiect. Mae'n anochel y bydd yna densiwn rhwng yr hyn a ddymunir o safbwynt wyddonol academaidd gydag anghenion ffermwyr a rheolwyr tir eraill ar gyfer eu pwrpas rheoli eu hunain; yr hyn sydd angen yw darparu negesu cywir ac effeithiol ar gyfer y cyhoedd a rhaindeiliaid allanol eraill. Credwn ei fod yn hollbwysig i gydnabod y tensiwn hwn o'r dechrau ac yna trafod yr hyn sy'n bosib o weithio mewn termau ymarferol, ynghyd â'r hyn sy'n gyfaddawd effeithiol i bawb sydd â diddordeb.
- Mae angen pwrpas a chynulleidfa ddiffiniedig i unrhyw weithgarwch cyfryngol ('cyhoeddi'r neges'). Beth yr ydym yn ceisio cyflawni gyda chyhoeddiad neu ymgyrch gyfryngol? Er mwyn darparu briff eglur mae angen i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr benderfyniadu ar eu bwriadau, meddwl am y nod o fewn y darlun mawr, a hefyd yn ystod y cyflwyniad ar y lefel targed. Fe allai'r darlun mawr olygu: ymgyrchu gweithredol/eiriolaeth; negesu wedi targedi ar nifer fechan o bynciau er mwyn gosod gwybodaeth gywir yn y maes cyhoeddus, e.e. rheolaeth dir a charbon; sicrhau fod llais ffermwyr a rheolwyr tir i'w glywed gan lunwyr polisi a phenderfyniadau.
- Yn ddilyniant i hyn, mae gweithgarwch cysylltiadau yn arbenigol ac yn cymryd amser. Oherwydd y rhesymau hyn, awgrymwn y byddai'n fuddiol ystyried hwn yn rôl neilltuedig.
- Nid yw'n debygol y bydd Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn llwyddo yn yr uchelgais i newid dealltwriaeth pobl ynghylch rheolaeth dir a chynhyrchiol bwyd, ond mae'n bosib y gallant ddod â newidiadau lleol. Dyma, yn wir, lle y mae gan Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr fantais ac arbenigedd.
- Awgrymodd cyfrannwyr i'r ymchwil hwn syniadau amrywiol ynghylch treialu cynnyrch a ffyrdd newydd o weithio; diau bod rhagor yn bodoli felly byddai gofyn am waith wedi ei dargeddi i'r pwrpas o gasglu syniadau. Byddai angen i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr benderfynu ar broses o ddethol pa syniadau i'w cefnogi.
- Yn hwn i gyd, cyfyd y cwestiwn sylfaenol ynghylch yr hyn all Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr gynnig na all eraill. Beth yw eu rhagoriaeth? Beth yw'r 'problemau dyrys' nad yw asiantaethau neu gynlluniau eraill i gefnogi busnes yn mynd i'r afael â nhw?



6 CASGLIAD

Yn y gwaith hwn, rydym wedi canolbwyntio ar fusnesau sydd â pherthynas ag adnoddau naturiol lle bo'r berthynas honno'n hollol ganolog i'w gweithgarwch masnachol. Beth bynnag bo'r terminoleg a ddefnyddir – yn natur-ganolog, yn natur-bositif, yn natur-fuddiol ac ati. Mae yna ddealltwriaeth sylfaenol ein bod yn sôn am fusnesau sydd â pherthynas uniongyrchol ag adnoddau naturiol trwy eu defnyddio neu eu cynaeafu, a busnesau sydd â pherthynas anuniongyrchol ond lle mae'r adnoddau naturiol dal yn greiddiol i'w model busnes.

Rydym wedi archwilio'r rhagdybiaeth fod y busnesau hyn, yn eu hanfod, yn 'gwneud pethau da dros natur' trwy eu gweithgarwch masnachol. Darganfuom fod pob busnes yn gallu cynnig sawl enghraifft o'r ffyrdd y mae'n cyfoethogi natur. Mae yna gryn botensial i adeiladu ar yr hyn y maent yn gwneud yn barod, ac mae yna archwaeth at hynny. Edrychwn ar sut i droi hwn yn weithred trwy gysyniadau'r prosiectau yr ydym yn eu cynnig.

Credwn y byddai'n dda petai Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yn edrych ar botensial gweithio gyda busnesau 'natur-ganolog/natur-bositif/natur-fuddiol. Trwy hyn fe all Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr weithio'n agos â'r busnesau sydd â diddordebau'n gyffredin i'w hunain (nid yn unig natur ond hefyd cymuned, diwylliant, treftadaeth, bywoliaethau); trwy hynny'n harnesio egni a gweithgarwch yr unigolion sy'n rhedeg y busnesau hyn, er budd y naill a'r llall. Mae'n debyg y bydd llawer o'r busnesau hyn yn cynllunio ar gyfer y tymor hir am eu bod yn cynrychioli bywoliaethau pobl (ac yn achos y ffermydd er enghraifft, bywoliaethau'r cenedlaethau a ddaw) maent yn cynnig cyfrwng hir dymor ar gyfer sicrhau lles natur.

Sut bynnag, mae yna hefyd botensial i Fenter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr i ddefnyddio'r gwaith hwn fel sylfaen tystiolaeth, i symud ymlaen oddi yma a chydio yn yr awennau; i fabwysiadu'r agwedd bod y busnesau hyn yn cynnig gwir botensial fel ffordd o gynorthwyo'r ddwy fenter i symud tuag at y targedau pwysicaf oll - mynd i'r afael â newid hinsawdd, sicrhau sero net, a gwireddu'r ysfa am adfer natur. Mae hwn yn gwneud synnwyr wrth ddeall y tir cyffredin sy'n bodoli: i feithrin cymunedau lleol, i gynnal tirwedd cynhyrchiol, i alluogi adferiad natur ac i leihau carbon.

Credwn fod yna awydd ymysg y busnesau hyn i gydweithio gyda'i gilydd yn ogystal â Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr, i gamu ymlaen gyda syniadau a ddaeth allan o'r gwaith hwn.

Y cam nesaf ar gyfer Menter Mynyddoedd Cambria ac O'r Mynydd i'r Môr yw i integreiddio'r casgliadau a'r cynigion o'r gwaith hwn i gyd-destun eu cynllunio ehangach a'u gwaith datblygu.

Trosglwyddwn yr awenau yn nôl atoch, er mwyn camu ymlaen mewn cydweithrediad â'ch busnesau lleol.